Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## TIMC Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr, Ysbyty Cymuned Maesteg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

## Dyddiad yr arolygiad: 13 a 14 Rhagfyr 2022

## Dyddiad cyhoeddi: 16 Mawrth 2023



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad

ISBN Digidol 978-1-80535-616-5
© Hawlfraint y Goron 2023

Ar y cyfan, roedd y TIMC yn rhoi profiad cadarnhaol i'r cleifion. Roedd defnyddwyr y gwasanaeth yn cael gofal a thriniaeth ag urddas a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd yr adborth a gawsom gan ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u perthnasau/gofalwyr am y gofal y maent yn ei gael gan eu cydgysylltwyr gofal a'r tîm TIMC ehangach yn gadarnhaol ar y cyfan.

Gwelsom fod y TIMC yn rhoi gofal, triniaeth a chymorth cyffredinol ddiogel i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Roedd asesiadau, cynlluniau gofal ac adolygiadau yn cael eu cwblhau mewn ffordd gynhwysfawr, yn unol â'r Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Gwnaethom nodi nifer bach o welliannau o ran darparu'r gwasanaeth a gweithio mewn partneriaeth.

Ar y cyfan, gwelsom fod y gwasanaeth yn cael ei arwain yn dda, a bod gofal a thriniaethau yn cael eu rhoi gan dîm o staff proffesiynol ac ymroddedig. Roedd tystiolaeth o drefniadau cydlynol ar gyfer gweithio fel tîm, a dywedodd y staff eu bod yn mwynhau eu swyddi.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad iechyd meddwl cymunedol (TIMC) ar y cyd lle rhoddwyd rhybudd o Dîm Iechyd Meddwl Cymunedol Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr sydd wedi'i leoli yn Ysbyty Cymuned Maesteg ar 13 a 14 Rhagfyr 2022. Caiff y gwasanaeth hwn ei ddarparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Chyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, Arolygydd awdurdod lleol AGC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol (a oedd yn cynnwys yr adolygydd enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol, ar gael ar ein gwefan.

# Ansawdd Profiad y Claf

## Crynodeb Cyffredinol

Gwelsom fod y TIMC yn darparu profiad cadarnhaol. Roedd defnyddwyr y gwasanaeth yn cael gofal a thriniaeth ag urddas a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd yr adborth a gawsom gan ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u perthnasau/gofalwyr am y gofal y maent yn ei gael gan eu cydgysylltwyr gofal a'r tîm TIMC ehangach yn gadarnhaol ar y cyfan.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Dywedodd defnyddwyr y gwasanaeth wrthym eu bod yn teimlo bod staff y TIMC yn gwrando arnynt a bod ganddynt ddigon o amser i drafod eu gofal, eu cymorth a'u triniaeth â nhw
- Dywedodd defnyddwyr y gwasanaeth wrthym eu bod yn gallu gweld eu gweithiwr gofal dynodedig a chyfathrebu ag ef yn amserol a bod y gofal cywir yn cael ei ddarparu ar yr adeg gywir
- Roedd y staff yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i roi cynnig ar syniadau a mentrau newydd er mwyn cefnogi'r gofal a roddir i ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u llesiant cyffredinol.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Rhaid i'r bwrdd iechyd / awdurdod lleol sicrhau y caiff unrhyw ymdrechion i gynnig gwasanaethau eiriolaeth, a'r penderfyniadau cysylltiedig, eu dogfennu'n glir.

**Dywedodd y cleifion wrthym:**

*"Rydym yn edrych ymlaen at ymweliadau [tynnwyd yr enw]. Mae [tynnwyd yr enw] yn cael gofal da gan y tîm. Yn fy marn i … mae [tynnwyd yr enw] yn fy helpu i ymdopi a gallwn ddibynnu ar [tynnwyd yr enw] a'r tîm i wneud unrhyw beth y mae angen ei wneud."*

*"Mae aelodau fy nhîm gofal yn hollol anhygoel. Mae ganddynt ddiddordeb go iawn yn yr hyn y maent yn ei wneud ac maent wedi dangos gofal a charedigrwydd y tu hwnt i bob disgwyliad tuag ataf."*

*"Mae [tynnwyd yr enw] a'r tîm wedi bod yn dda iawn i mi."*

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Crynodeb Cyffredinol

Gwelsom fod y TIMC yn rhoi gofal, triniaeth a chymorth cyffredinol ddiogel i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Roedd asesiadau, cynlluniau gofal ac adolygiadau yn cael eu cwblhau mewn ffordd gynhwysfawr, yn unol â'r Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Gwnaethom nodi nifer bach o welliannau o ran darparu'r gwasanaeth a gweithio mewn partneriaeth.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd asesiadau, cynlluniau gofal ac adolygiadau yn dangos perchnogaeth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth, gan gynnwys prosesau ar gyfer edrych i'r dyfodol a phwyso a mesur cyfleoedd i gymryd risgiau cadarnhaol
- Roedd tystiolaeth o waith da o ran monitro iechyd corfforol
- Roedd prosesau clir ar waith i reoli ac uwchgyfeirio materion yn ymwneud â risgiau i ddefnyddwyr y gwasanaeth.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau mynediad digonol ac amserol i sesiynau seicoleg un-i-un
- Rhaid i'r bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol ystyried sut y gellir atgyfnerthu llwybrau â gwasanaethau gofal sylfaenol lleol.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Crynodeb Cyffredinol

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cael ei arwain yn dda ar y cyfan, a bod gofal a thriniaethau yn cael eu rhoi gan dîm o staff proffesiynol ac ymroddedig. Roedd tystiolaeth o drefniadau cydlynol ar gyfer gweithio fel tîm, a dywedodd y staff eu bod yn mwynhau eu swyddi.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd sylwadau'r staff am y cymorth a ddarperir gan reolwyr lleol yn gadarnhaol ar y cyfan.
- Roedd cyfleoedd da i ddysgu a datblygu.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Dylai'r bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol fyfyrio ar yr adborth gan y staff yn yr adroddiad hwn.

**Dywedodd y staff wrthym:**

> *"Systemau TG gwell er mwyn i wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol allu cyfathrebu, yn enwedig y tu allan i oriau..."*
>
> *"Dylid darparu ystafelloedd ymgynghori priodol ychwanegol oddi ar y safle i ddefnyddwyr y gwasanaeth na allant gyrraedd Ysbyty Maesteg neu Ysbyty Tywysoges Cymru."*

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, cânt eu nodi yn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, gofynnwn i'r bwrdd iechyd gymryd camau brys. Caiff y pryderon hyn eu hamlinellu yn yr atodiadau ac maent yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle byddwn yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn ac i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, bydd AGIC yn gofyn i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion y rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i fyrddau iechyd ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

